**Hawdd ei Ddeall**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cyllido dyfodol y celfyddydau yng Nghymru

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor y Celfyddydau**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cyllido dyfodol y celfyddydau yng Nghymru Adolygiad Buddsoddiad 2022'**

**Gorffennaf 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 23**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**Gwefan**: [arts.wales/cy/adolygiad-buddsoddi](arts.wales/cy/adolygiad-buddsoddi)

**E-bost:** [adolygiadbuddsoddi@celf.cymru](mailto:adolygiadbuddsoddi@celf.cymru)

**Ffôn:** 029 2044 1391

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Newid sut rydyn ni'n gweithio** Error! Bookmark not defined.

**Pam rydyn ni eisiau newid......**Error! Bookmark not defined.

**Beth fydd yn newid?................**Error! Bookmark not defined.

Newid sut rydyn ni'n cyllido celfyddydau ..................**Error! Bookmark not defined.**

**Beth rydyn ni eisiau ei wneud i chi ...................................... 12**

**Sut mae cyrff yn gallu gwneud cais am gyllid..............**Error! Bookmark not defined.

Asesu ceisiadau............................................................... 16

Sut y byddwn ni yn asesu ceisiadau . **Error! Bookmark not defined.**

Cyllid ......................................**Error! Bookmark not defined.**

Eich cyfrifoldeb chi...............**Error! Bookmark not defined.**

**Pa gyrff fydd yn cael cyllid?................................................ 19**

**Apeliadau ............................................................................ 20**


**Gwybodaeth ....................................................................... 21**

**Geiriau anodd..........................**Error! Bookmark not defined.

# Newid sut rydyn ni'n gweithio



Mae llawer o gelfyddydau yn cael eu gwneud yng Nghymru, Ac mae'n bwysig iawn i lawer o bobl.




Fe wnaeth coronafeirws newid llawer o bethau i bawb ohonom ni. Fe wnaeth newid sut roedden ni yn meddwl a gweithio. Fe wnaethon ni ddysgu llawer.



Ar hyn o bryd, rydyn ni yn ysgrifennu ein cynllun ar gyfer ein gwaith dros y 10 mlynedd nesaf.




Rydyn ni eisiau defnyddio beth rydyn ni wedi ei ddysgu yn ystod coronafeirws i weithio mewn ffyrdd gwahanol. Rydyn ni eisiau bod yn fwy hyblyg. A gweithio mwy gyda'n partneriaid.



Rydyn ni'n meddwl am sut orau i ddefnyddio ein harian i gryfhau a chefnogi'r celfyddydau yng Nghymru.




Mae'r ddogfen yma am beth rydyn ni eisiau ei wneud. Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl.



Darllenwch y ddogfen yma os gwelwch yn dda ac yna llanwch y **ffurflen ymateb**.




Rydyn ni'n edrych ymlaen i glywed beth rydych chi'n feddwl.



Fydd beth rydych chi'n ei feddwl ddim yn effeithio ar unrhyw waith sydd gyda chi neu eich corff gyda ni.

# Pam rydyn ni eisiau newid

Ein rôl ydy cefnogi'r celfyddydau yng Nghymru.





Rydyn ni'n cael arian gan **Lywodraeth Cymru** a'r **Loteri Cenedlaethol**.



Rydyn ni'n defnyddio'r arian yma i gefnogi llawer o gyrff celfyddydau yng Nghymru.

Mae llawer o bethau yn digwydd yn y byd ar hyn o bryd. Pethau fel:




- Coronafeirws



- Mae costau byw wedi codi – mae'r pethau rydyn ni eu hangen yn costio mwy nawr



- Yr **argyfwng hinsawdd**

> Mae'r **argyfwng hinsawdd** yn meddwl bod ein planed yn mynd yn fwy poeth. Mae hyn yn achosi niwed. Mae angen inni ddarganfod ffyrdd gwahanol o fyw a gweithio i helpu i edrych ar ôl ein planed.



- **Anghydraddoldeb**

> Mae **anghydraddoldeb** yn meddwl dydy pobl ddim bob amser yn cael eu trin yn deg. Er enghraifft, oherwydd eu bod yn dod o le gwahanol neu oherwydd bod lliw eu croen yn wahanol i lawer o bobl mewn un lle.



Mae pethau fel hyn wedi dangos inni bod angen inni feddwl am wneud ein gwaith yn wahanol.

# Beth fydd yn newid




Mae gennym ni 6 **blaenoriaeth** rydyn ni eisiau canolbwyntio arnyn nhw.

> Mae **blaenoriaeth** yn meddwl bod rhywbeth yn bwysig ac y dylai gael ei roi yn gyntaf.

Rydyn ni eisiau cefnogi celfyddydau yng Nghymru yn seiliedig ar y 6 **blaenoriaeth** yma:



1. **Creadigrwydd** – mae hyn yn meddwl celfyddyd sydd yn feddylgar, sydd gyda syniadau newydd ac sydd yn meddwl llawer i bobl.



2. **Teg a chyfartal** – rydyn ni eisiau i gelfyddyd gynnwys pawb.




3. **Yr iaith Gymraeg** – rydyn ni eisiau i'r iaith Gymraeg fod yn rhan pwysig o'r celfyddydau yng Nghymru.



4. **Edrych ar ôl y blaned** – rydyn ni eisiau cefnogi celfyddydau sydd yn meddwl am y blaned ac am yr **argyfwng hinsawdd**.



5. **Cefnogi artistiaid y dyfodol** – rydyn ni eisiau rhoi cyfleoedd teg i bobl ifanc. Rydyn ni eisiau rhoi'r gefnogaeth maen nhw ei angen i ddod yn artistiaid neu i wneud swyddi eraill yn y celfyddydau.



6. **Ymateb i newid** – rydyn ni eisiau darganfod y cyfleoedd gorau yn y celfyddydau.

A gwneud yn siŵr ein bod yn aros yn berthnasol a gwneud unrhyw newidiadau sydd angen inni eu gwneud.

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn rhedeg yn dda.

# Newid sut rydyn ni'n cyllido celfyddydau

I wneud yn siŵr ein bod ni yn gweithio gyda ein 6 **blaenoriaeth** newydd fe fyddwn ni yn gwneud pethau fel:




- Rhoi cyfle i gyrff wneud cais am gyllid am 3 blynedd ar y tro.




- Cynnig 3 blynedd arall o gyllid os ydyn nhw yn cyrraedd eu nodau.

- Cynnig cyfle i gyrff gael rhagor o gyllid os ydyn nhw angen rhagor o gefnogaeth.



- Cynnig cyllid i wyliau a chyrff sydd ddim ein hangen ni fel eu prif ffynhonnell o gyllid i redeg.



Fe fydd gennym ni ffordd syml o wneud cais am gyllid.



Fe fyddwn ni eisiau i gyrff celfyddydau weithio gyda ein 6 **blaenoriaeth**.



Rydyn ni hefyd angen i gyrff wybod ei bod yn anodd iawn cael cyllid.



Fe fydd rhaid iddyn nhw feddwl yn ofalus am y cyllid maen nhw ei angen.



Fe fydd angen inni weld pethau fel:

- Eu cynlluniau a'u nodau
- Sut maen nhw yn gwneud eu gwaith yn dda
- Sut y byddan nhw yn cynnwys cynulleidfa



Fyddwn ni ddim yn edrych cymaint  ar beth mae corff wedi ei wneud  o'r blaen.




Fe fyddwn ni yn edrych ar beth maen nhw yn ei wneud nawr a beth maen nhw eisiau ei wneud yn y dyfodol.

# Beth rydyn ni eisiau ei wneud i chi




Mae gennym ni gynlluniau mawr ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru. Ac rydyn ni eisiau gweithio gyda chyrff sydd â chynlluniau mawr hefyd.




Fe fyddwn ni yn ei gwneud yn fwy hawdd i wneud cais am gyllid, i wneud yn siŵr ei fod yn deg i bawb.



Fe fyddwn yn edrych i weld pa gelfyddydau sydd yn cael eu cynnig yng Nghymru. Ac yn edrych ar sut maen nhw yn cefnogi cymunedau.



Rydyn ni eisiau i gyrff ddibynnu llai ar ein cyllid ni.



Fe fydd pobl gydag anghenion ychwanegol yn gallu gwneud cais am gyllid yn y ffordd maen nhw yn ei ddewis. Er enghraifft, mewn Hawdd ei Ddeall.



Ac rydyn ni'n gallu rhoi cefnogaeth i bobl i wneud cais.



Mae ein cyllid gan y **Loteri Cenedlaethol Creu** yn parhau i fod ar gael. Mae'n gallu cael ei ddefnyddio gan gyrff i ddatblygu sut maen nhw'n cael eu rhedeg. Mae hyn werth £10 mil o bunnoedd.



Fe fyddwn ni yn agored a gonest ac yn dilyn ein rheolau ar gyfer gweithio'n deg.

# Sut mae cyrff yn gallu gwneud cais am gyllid




Mae cyrff yn gallu gwneud cais am gyllid **aml flwyddyn** – mae hyn yn meddwl cyllid am fwy nag 1 blwyddyn.





Mae cyrff yn gallu gwneud cais o Ionawr 2023 i Mawrth 2023.





Mae'r ffurflen gais ar ein **porth ar-lein**, Fe fydd angen iddyn nhw gofrestru ar gyfer hyn os nad ydyn nhw wedi ei ddefnyddio o'r blaen erbyn diwedd 2022.



Fel rhan o'r cais  fe fyddwn ni yn gofyn cwestiynau i chi.




Fe fyddwn ni angen gweld eich cynllun busnes.



Fe fydd angen i chi ddweud wrthyn ni pam eich bod angen y swm o arian rydych chi'n gofyn amdano.



Os ydych chi angen cefnogaeth i wneud cais, rhowch wybod inni os gwelwch yn dda. Rydyn ni'n gallu derbyn ceisiadau ar ffurf fideo neu ar ffurf sain hefyd.



Fe fyddwn angen cael eich cais rhwng **Llun 9 Ionawr 2023** a **Gwener 31 Mawrth 2023**.




Fe fyddwn ni yn gwneud ein penderfyniadau am gyllid erbyn **Medi 2023.**




Fe fyddwni'n dechrau'r cyllido ar **1 Ebrill 2024.**

# Asesu ceisiadau



Fe fyddwn ni yn cymryd 4 cam i edrych ar geisiadau pobl am gyllid.



Fe fydd hyn yn meddwl bod aelod o staff yn edrych arno. A grŵp o'n Uwch Dîm.

## Sut y byddwn ni yn asesu ceisiadau



Fe fyddwn ni yn edrych ar:

- Y ffurflen gais
- Eich cynllun busnes
- Cyllideb – cynllun ar gyfer sut y byddwch chi yn gwario eich arian
- Prawf o'ch gwaith
- Sut y byddwch yn ateb ein 6 **blaenoriaeth**
- Efallai y byddwn yn edrych ar wybodaeth sydd gennych chi ar-lein.

# Cyllido




Fe fydd y cyllid am 3 blynedd. Weithiau mae'n gallu bod yn lllai.




Fe fydd cyfle i wneud cais am ragor o gyllid pan fyddwn ni yn cysylltu gyda chi ar ôl 2 flynedd.

# Eich cyfrifoldeb chi



Mae angen i bob corff sydd yn cael cyllid lofnodi cytundeb gyda ni.



Dogfen wedi ei llofnodi fydd hon yn dweud beth rydych chi wedi cytuno i’w wneud.



Fe fydd yn cynnwys pethau fel gwneud yn siŵr bod staff yn cael eu trin yn deg.



A gwneud yn siŵr eich bod yn meddwl am ffyrdd i edrych ar ôl y blaned yn eich gwaith.

# Pa gyrff sydd yn gallu cael cyllid?



Fe fydd angen i gyrff fod yn 1 o'r mathau yma:

- Cwmni cyfyngedig gan Warant
- Elusen cofrestredig
- Corff ymgorfforedig elusennol
- Cwmni Buddiannau Cymunedol
- Rhan o Awdurdod Lleol
- Rhan o brifysgol
- Rhai mathau eraill, siaradwch gyda ni am hyn os gwelwch yn dda

# Apeliadau



Fe fyddwn ni yn gweithio i safonau uchel pan yn gwneud penderfyniadau am pwy sydd yn mynd i gael cyllid.



Ond fe fydd gennym gynllun ar gael fel bod cyrff yn gallu **apelio** os ydyn nhw ddim yn hapus.

**Apêl** ydy pan dydych chi ddim yn hapus gyda phenderfyniad ac rydych chi'n gofyn iddo gael ei edrych arno eto.

# Gwybodaeth



Fe fyddwn ni'n rhoi yr holl wybodaeth pwysig am ein gwaith ar ein gwefan.




Ond fyddwn ni ddim yn rhoi dim byd preifat yno.



Oherwydd y math o gorff ydyn ni, rhaid inni adael i'r cyhoedd weld ffurflenni cais os ydyn nhw'n gofyn amdanyn nhw.




Mae hyn oherwydd deddf o'r enw **Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**.




Ond mae rhywfaint o wybodaeth yn gallu aros yn breifat. Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth: [arts.wales/about-us/accountability/freedom-information](arts.wales/about-us/accountability/freedom-information)




Fe fyddwn ni hefyd yn dilyn deddf o’r enw **Deddf Diogelu Data 2018**. Mae hyn am gadw gwybodaeth pobl yn ddiogel a phreifat.




Mae rhagor o wybodaeth am y rheolau sydd gennym ni am hyn ar ein gwefan yma: [arts.wales/privacy-policy](arts.wales/privacy-policy)



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi’n ei feddwl am ein syniadau yn y ddogfen yma.




**Ewch i’r ffurflen ymateb os gwelwch yn dda ac ateb y cwestiynau.**



Fe fyddwn ni yn gwrando ar beth mae pobl yn ei ddweud wrthyn ni.



Fe fyddwn ni yn dweud wrth bobl beth rydyn ni yn benderfynu ei wneud nesaf.

# Geiriau anodd

## Apêl

Apêl ydy pan dydych chi ddim yn hapus gyda phenderfyniad. Ac rydych chi'n gofyn iddo gael ei edrych arno eto.

## Artgyfwng hinsawdd

Mae'r argyfwng hinsawdd yn meddwl bod ein planed yn mynd yn fwy poeth. Ac mae angen inni ddarganfod ffyrdd gwahanol o fyw a gweithio i helpu i edrych ar ôl ein planed.

## Anghydraddoldeb

Mae hyn yn meddwl bod pobl ddim bob amser yn cael eu trin yn deg. Er enghraifft oherwydd eu bod nhw yn dod o le gwahanol neu bod lliw eu croen yn wahanol i lawer o bobl eraill mewn un lle.

## Blaenoriaeth

Mae hyn yn meddwl rhywbeth sydd yn bwysig ac a ddylai gael ei roi yn gyntaf.